PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 158 | Rhif 37 | Medi 11, 2025 | 50c.

## Apêl daeargryn Affganistan Cymorth Cristnogol

**Beth sydd wedi digwydd?**
Mae'r daeargryn graddfa 6.1 sydd wedi taro dwyrain a chefn gwlad Affganistan – gan ysgwyd adeiladau o Kabul i Islamabad, prifddinas Pacistan – wedi lladd dros 800 o bobl.

Yn ôl ein cyd-weithwyr a'n partneriaid, mae pobl wedi'u heffeithio'n ddifrifol gan y daeargryn, sydd wedi achosi colledion dynol ac ariannol sylweddol i gymunedau lleol. Clywsom fod tai sydd wedi'u hadeiladu o fwd a choed wedi dymchwel wrth i hofrenyddion gyrraedd i gludo'r rhai a anafwyd.

Mae Affganistan yn un o wledydd tlotaf y byd, ac roedd bron hanner y boblogaeth – tua 22.9 miliwn o bobl – eisoes angen cymorth dyngarol i oroesi cyn y daeargryn, a hynny oherwydd gwrthdaro, sychder, dadleoli, a thrafferthion gwleidyddol.

Mae angen gwaith brys i achub cymaint o bobl sydd wedi'u dal dan y rwbel, ac mae angen dŵr yfed, bwyd, lloches, blancedi, offer coginio, a chyflenwadau meddygol hanfodol ar lawer mwy.

**Beth mae Cymorth Cristnogol yn ei wneud?**
Mae ein partneriaid eisoes wedi cyrraedd rhai o'r ardaloedd sydd wedi'u heffeithio. Yno, mae Cymorth Cristnogol yn gweithio'n agos gyda'n rhwydweithiau i gynnal asesiadau a dynodi maint y difrod a'r risg i'r rhai mwyaf bregus, yn enwedig y merched. Mae'r ardaloedd a gafodd eu taro gan y daeargryn yn rhai anodd eu cyrraedd, ac mae hynny'n gwneud y gwaith chwilio ac achub hyd yn oed yn anoddach.

Mae gan ein partner OCHR (Organisation for Coordination of Humanitarian Relief) bresenoldeb gweithredol cryf yn yr ardaloedd sydd wedi'u heffeithio ac yn sicrhau bod cymorth yn cael ei arwain yn lleol gyda ffocws cymunedol.

Eisoes mae Cymorth Cristnogol wedi rhyddhau £50,000 i OCHR i gynorthwyo'r ymateb dyngarol brys sy'n cynnwys darparu parseli bwyd, pecynnau dŵr, llochesi, ac arian parod ar gyfer cyflenwadau hanfodol.

### Gweddi dros Affganistan

**Pan mae'r ddaear yn crynu, y mynyddoedd yn siglo a'r ddaear yn toddi...**

**Dduw, dal ein calonnau'n dynn. Arwain ein dwylo a'n traed i helpu fel y gallwn.**

**Pan mae'r awyr yn tywyllu, sylfeini'n chwalu ac uffern yn ffrwydro oddi tanom...**

**Dduw, dal ein calonnau'n dynn. Arwain ein dwylo a'n traed i helpu fel y gallwn.**

**Pan mae ofn a galar yn siglo'r sylfeini i'r byw ac yn parhau i ddinistrio yn hir wedi i'r byd ddistewi...**

**Dduw, dal ein calonnau'n dynn. Arwain ein dwylo a'n traed i helpu fel y gallwn.**

**Mae ein chwiorydd a'n brodyr, ein teulu ni, yn Affganistan yn profi'r arswyd hwn yn awr.**

**Dduw cariadus a thrugarog, boed i ni adlewyrchu dy gariad trwy ein ymateb - yn awr.**

**Amen.**

Rydym yn barod i sefyll gyda'n partneriaid a'r cymunedau sydd wedi'u heffeithio gan y daeargryn dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Mae mwy am yr ymateb a sut i helpu yma: Afghanistan Earthquake Appeal – Christian Aid

## Cymanfa bregethu gyd-enwadol Rhoshirwaun



Cynhaliwyd y Gymanfa eleni ar nos Iau 21 Awst yn ôl yr arfer, yn Neuadd Bentref Rhoshirwaun, a chafwyd oedfa ardderchog o dan arweiniad y Parchedigion John Roberts, Aberystwyth ('Bwrw Golwg' BBC Radio Cymru) a Carwyn Siddall, Llanuwchllyn. Da hefyd oedd gweld cynulleidfa deilwng iawn yno i addoli'n Harglwydd. Llywyddwyd yr oedfa gan Mrs Doris A. Jones, cyfeiliwyd gan Mrs Gwenda Roberts ac arweiniwyd y canu gan Mrs Gwladys Thomas. Da oedd bod yno.

**Iwan Llewelyn Jones**

# Tymor yr hydref

Ar gychwyn tymor newydd yn ein heglwysi a phawb ohonom yn ail-gydio mewn gweithgareddau amrywiol, hoffwn ddymuno yn dda i chi yn eich gwaith dros yr Arglwydd. Bydd cannoedd o oedfaon a digwyddiadau yn cael eu cynnal yn ystod y misoedd nesaf.

Hoffwn eich gwahodd i rannu gyda'ch cyd-gristnogion ac Annibynwyr hanesion am eich cyfarfodydd yn Y Tyst. Y mae'r Tyst yn llwyfan arbennig i ni rannu gwybodaeth a hanesion gan ysbrydoli ein gilydd yn y gwaith o dystio i gariad Duw yn Iesu. Eich wythnosolyn chi yw'r Tyst a heb eich cyfraniadau, derfydd. Rydym fel tîm golygyddol yn awyddus i adlewyrchu Annibyniaeth yn ei holl amrywiaeth a chyfoeth gyda chyfraniadau o Gymru benbaladr.

Felly beth amdani? Y mae cyfle i chi anfon adroddiadau, sylwadau, safbwyntiau, myfyrdodau, pytiau, lluniau, erthyglau, cyfansoddiadau, adolygiadau, emynau neu farddoniaeth atom er mwyn eu rhannu. Edrychwn ymlaen at glywed gennych yn ystod tymor yr hydref.

**Alun Tudur (Prif olygydd)**

Cynhelir

## Oedfa Gomisiwn

Ysgrifennydd Cyffredinol newydd
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

## Elinor Wyn Reynolds

nos Fercher 24 Medi am 7pm
yng nghapel y Priordy, Caerfyrddin

Mae croeso cynnes iawn i bawb.
Dewch i ddymuno'n dda ac i fwynhau cwmnïaeth.
Bydd lluniaeth i ddilyn yn y festri.

*Caiff yr oedfa ei ffrydio'n fyw ar wefan annibynwyr.cymru*

# Hyfforddi – beth sy'n digwydd?

*Dyma ail ran adroddiad Carwyn Siddall y Cyfarwyddwr Hyfforddiant a draddodwyd yng nghyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr yn Nant Gwrtheyrn eleni.*



Ymhlith y rhai sydd wedi bod yn dilyn hyfforddiant, mae pump ohonynt wedi, neu yn gwneud hynny er mwyn cymhwyso fel Pregethwyr Cynorthwyol Cydnabyddedig, a braint fawr inni yn yr Oedfa nos Iau fydd llongyfarch pedwar ohonynt ar gwblhau'r hyfforddiant hwnnw.

Ond i ddau ohonynt, roedd yr alwad i wasanaethau'r eglwysi ar y Sul fel Pregethwyr Cynorthwyol Cydnabyddedig ond rhan o'r alwad, gan iddynt fynegi eu hymdeimlad fod Duw yn eu galw i gamu ar daith newydd, a hynny er mwyn cymhwyso i fod yn agored i dderbyn galwad i'r Weinidogaeth Ordeiniedig. Eisoes, mae Arwyn Hughes, o eglwys Soar, Nefyn, a Siân Meinir, o eglwys Bethel Penarth wedi cychwyn y broses o dderbyn cymeradwyaeth eu mam eglwys a'r Cyfundeb, a dymunwn fendith Duw yn helaeth arnynt wrth iddynt ymbaratoi a cherdded y llwybr arbennig hwn.

Mae gennym hefyd ddau unigolyn arall sydd wedi cael sgyrsiau anffurfiol â mi; un yn teimlo galwad i'r Weinidogaeth Ordeiniedig, ac un arall yn dymuno derbyn hyfforddiant mewn arwain a phlannu eglwys. Edrychwn ymlaen, a gweddïwn am arweiniad yr Arglwydd wrth i'r egin cynnar hwn dyfu a datblygu i'w siâp unigryw ond prydferth ei hun.

### Amrywiaeth

Wrth lawenhau fod Duw yn galw rhai i'r Weinidogaeth, mae'r cymal olaf yna hefyd yn ein hatgoffa fod amrywiaeth o Weinidogaethau, ac wrth i ffurf a siâp ein heglwysi amrywio yn yr hinsawdd bersonol, rhaid i ninnau ystyried sut i ymateb i hynny o ran Gweinidogaeth. O bersbectif hyfforddiant, bydd angen i ni ystyried llwybr hyfforddiant amrywiol Weinidogaethau i sicrhau arweiniad ac arbenigedd perthnasol i gyflawni'r Gweinidogaethau penodol. Rwy'n falch fod Adran Yr Eglwysi a'u Gweinidogaeth yn trafod yr amrywiaeth o Weinidogaethau yn ein plith, ac edrychaf ymlaen at ymateb i'w trafodaethau o safbwynt hyfforddiant.

Mae nifer wedi ymholi os oes modd dilyn y modiwlau hyn yn eu hamser a'u pwysau eu hunain, ac yn sicr, wrth i nifer o'r rhai sy'n ymdeimlo galwad i'r Weinidogaeth brofi hynny tra mewn gwaith neu broffesiwn arall, daw'r angen i sicrhau cyfle i hyfforddi ar amseroedd hyblyg yn fwy. Ar un llaw, rydym eisiau osgoi'r ymdeimlad o hyfforddiant ynysig, ond ar yr un pryd, yn awyddus i ddarparu ar gyfer pobl o fewn eu cyd-destun eu hunain. Canlyniad hynny yw y byddwn yn bwrw ymlaen yn yr wythnosau nesaf i gydweithio â Web Box, y cwmni sy'n darparu gwefan yr Undeb, i greu platfform hyfforddi digidol ar ein cyfer. Arno, bydd modd i unrhyw un sy'n dymuno dilyn modiwl wneud hynny yn eu hamser eu hunain.

Bydd angen cychwyn drwy gofrestru. Yna, gellir dilyn y darlithoedd ar ffurf fideos, lawrlwytho'r cyflwyniad PowerPoint a'r nodiadau, a chyflwyno unrhyw waith ysgrifenedig. Yn ogystal â hynny, trefnir seminar fyw dros Zoom i'r rhai sy'n dilyn y modiwl gyda'r tiwtor, a hynny er mwyn archwilio'r pwnc ar ffurf holi ac ateb. Eisoes, mae'r ffilmio wedi cychwyn ar gyfer hyn, ac ymhlith y modiwlau cyntaf i ymddangos fydd 'Dehongli'r Hen Destament' a 'Dehongli'r Testament Newydd'.

**Bethlehem, Dyffryn Ceidrych**

## Oedfa Dathlu 225 mlynedd
## 1800 – 2025

Bore Sul 28 Medi am 10.30 y bore.

Pregethwr gwadd –
Parchg Guto Prys ap Gwynfor.

Bydd lluniaeth ysgafn i ddilyn yn yr hen ysgoldy.

Croeso cynnes i bawb

## Eglwysi Alltwen a Soar Maesyrhaf

Gwahoddir chwi gan yr Eglwysi uchod i ddathlu 60 mlynedd ordeinio y Parchg Gareth Morgan Jones i'r weinidogaeth.

Pregethir gan
y Parchg Owain Llŷr Evans,
Llywydd yr Undeb

Dydd Sul 12 Hydref
yn yr Alltwen am 2.30pm.

Yr Adran Gydenwadol

MEDI 11 2025 RHIF 237

# Y Comisiwn Brenhinol ar Henebion Cymru

Rydyn ni'n falch iawn o gyhoeddi bod y Comisiwn Brenhinol wedi derbyn £151,833 mewn cyllid datblygu gan fenter Treftadaeth mewn Angen: Mannau Addoli Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i ddechrau gweithio ar Capeli Cymru: Diogelu Treftadaeth Anghydffurfiol Cymru.

Ers bron i dair canrif, mae capeli wedi siapio tirweddau, cymunedau a diwylliant Cymru. O ffydd a gwleidyddiaeth i iaith, cerddoriaeth ac addysg, maen nhw'n adrodd stori ein cenedl ni. Ond heddiw, mae llawer o gapeli'n cau eu drysau – gyda'r risg o golli nid yn unig adeiladau pwysig, ond hefyd archifau, gwrthrychau a thraddodiadau byw.

Dros y 15 mis nesaf, bydd y prosiect yma'n gwneud y canlynol:

- Cynnal arolwg cenedlaethol o gapeli — gweithredol, wedi cau ac wedi'u haddasu
- Mapio eu gwerth pensaernïol, eu cynaliadwyedd a'u statws treftadaeth
- Gweithio gydag enwadau, cynulleidfaoedd, archifau, amgueddfeydd, awdurdodau lleol a gwirfoddolwyr
- Archwilio ffyrdd arloesol ac ymarferol o ddiogelu treftadaeth capeli
- Rhannu canfyddiadau drwy weithdai ac adroddiadau

Bydd y gwaith yma'n paratoi'r ffordd ar gyfer cais grant llawn gwerth £1.25m gan y Loteri Genedlaethol i gyflawni strategaethau tymor hir ar gyfer diogelu'r dreftadaeth unigryw yma.






Dywedodd Susan Fielding, o'r Comisiwn Brenhinol: "Mae capeli anghydffurfiol yn ganolog i hunaniaeth ddiwylliannol Cymru. Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, fe allwn ni nawr ddatblygu ein cynlluniau fel bod eu gwaddol – yn ffisegol ac yn ddiwylliannol – yn cael ei chofnodi a'i diogelu ond ei bod hefyd yn parhau i fod yn hygyrch ac yn ystyrlon i genedlaethau i ddod."

Mwy o wybodaeth yn ein datganiad i'r wasg: https://zurl.co/Ce62l

**Cyfleoedd am Swyddi!**
Er mwyn helpu i gyflawni'r prosiect yma, rydyn ni nawr yn recriwtio i ddwy swydd gyffrous newydd ar gyfer y cyfnod datblygu o 15 mis:

• Rheolwr Datblygu Prosiectau (£35,787–£43,758 | 37 awr/wythnos)


• Swyddog Datblygu Prosiectau (£29,657–£33,748 | 37 awr/wythnos)

Mae hwn yn gyfle unigryw i chwarae rhan ganolog wrth ddiogelu un o dreftadaethau diwylliannol mwyaf nodedig a phwysicaf Cymru.

Dyddiad cau: 5pm 21 Medi 2025

Am fanylion llawn y swydd: https://zurl.co/uZCLl

## Codi'r Llen – Maes Llafur yr Oedolion 2025/26




O fis Hydref 2025 ymlaen y maes llafur ar gyfer yr oedolion fydd y gyfrol *Codi'r Llen*, sy'n ein tywys ar daith 40 sesiwn yn edrych ar rai o ferched arwrol yr Hen Destament. Cyhoeddwyd y gyfrol, sy'n gyfieithiad o *Unveiled*, ddwy flynedd yn ôl, ac mae'n dda cael cyfle i'w ddefnyddio fel sail i'n hastudiaethau dros y flwyddyn nesaf. Yn ychwanegol at y gyfrol ei hun, bydd myfyrdod a chyfres o gwestiynau hefyd yn ymddangos bob wythnos yn *Cenn@d* a'r *Tyst*, i'n cyfeirio ar hyd y daith.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 14 Medi, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Allan Pickard

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 14 Medi, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal y Tad Gildas, Llundain

Annwyl eglwysi Cymru,

Rydym yn dyst i'r trais dinistriol sy'n gwaethygu yn Gaza a'r Llain Orllewinol, a phenderfyniad diweddaraf Israel i lansio ymosodiad newydd ar Ddinas Gaza sydd yn bygwth dadleoli cannoedd ar filoedd o bobl yn orfodol. Mae lleisiau arweinwyr eglwysig Palestinaidd dros undod a therfyn ar y gwrthdaro yn atseinio ar draws yr eglwysi yn fyd-eang, gan ein hannog i ymateb yn glir a chadarn a gyda thosturi.

Credwn fod **tystiolaeth Gristnogol weladwy ac unedig** yn y foment hynod ddifrifol hon yn angenrheidiol —tystiolaeth sydd yn adlewyrchu ein hymrwymiad cytûn dros heddwch, cymod, ac urddas i holl bobl Duw.

**Mae anogaeth ar eglwysi ar draws Prydain i weddïo dros heddwch, ddydd Sul 21ain Medi**, sydd yn cyd-fynd â Diwrnod Heddwch Byd y Cenhedloedd Unedig, a'r alwad fyd-eang i weddïo gan Gyngor Eglwysi'r Byd. Datblygwyd y cynlluniau hyn mewn cydweithrediad agos rhwng asiantaethau Cristnogol Prydeinig gan gynnwys Cymorth Cristnogol, CAFOD, Tearfund, Embrace the Middle East, Amos Trust, Sabeel-Kairos, Y Crynwyr ym Mhrydain, All We Can, Reconciling Leaders Network, Difference, Friends of the Holy Land, USPG, a'r Centre for Missionaries from the Majority World.

**Ddydd Sul, 21 Medi**, gall eich ennyd o weddi gynnwys cyfnod o dawelwch; neu weddi gan Archesgob Hosam o Jerwsalem (isod); neu ymuno â'r weithred #YmprydioDrosGaza. Gall eich gweddïau ganolbwyntio ar un neu fwy o'r materion isod:

- Cadoediad llawn uniongyrchol yn Gaza
- Mynediad llawn i gymorth dyngarol
- Diwedd ar drais yn Israel a Phalestina
- Rhyddhau gwystlon Israel a'r Palestiniaid sydd wedi'u cadw yn annheg
- Proses heddwch ystyrlon.

Gwyddom fod ymdrechion asiantaethau dyngarol yn mynd ran o'r ffordd yn unig. **Mae arweinyddiaeth eglwysi yn hanfodol**. Mae angen eich cefnogaeth i ysgogi'r ymateb ar y raddfa y mae'r argyfwng hwn yn ei fynnu. Felly rydym yn eich gwahodd i:

- Rannu'r alwad hon i weddïo yn eang gyda chyd-weithwyr ac eglwysi
- Annog eich eglwysi i ystyried beth arall y gellir ei wneud i sefyll dros heddwch
- Ymuno ag arweinwyr ffydd eraill mewn tystiolaeth gyhoeddus, gan atseinio'r alwad am gyfiawnder a chymod. **Yma yng Nghymru**, hoffwn estyn gwahoddiad i chi ymuno mewn **moment o dystiolaeth a gweddi gyhoeddus o flaen y Senedd ym Mae Caerdydd ddydd Mercher, 24 Medi, am 12.30 o'r gloch**. Byddwn yn cydsefyll mewn undod heddychlon mewn gweithred #LlinellGochDrosGaza #RedLineCymru: Red Line for Gaza

Fel yr ymatebodd arweinwyr eglwysi Cymru 100 mlynedd yn ôl trwy Apêl Heddwch yr Eglwysi yn 1925, gadewch i ni eto, gan mlynedd yn ddiweddarach, sefyll dros heddwch, yn enw Iesu Grist, Tywysog Tangnefedd.

**Mewn ffydd a gobaith,**

Mari McNeill
**Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru**

Dr. Cynan Llwyd
**Ysgrifennydd Cyffredinol**
**Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru**

Dad Grasol, daeth dy Fab bendigedig, Iesu Grist, o'r nefoedd i fod yn fara'r gwirionedd sy'n rhoi bywyd i'r byd:

Yn dy drugaredd, dyro fwyd i bawb yn Gaza a thu hwnt sy'n dioddef o newyn er mwyn iddynt dderbyn bara materol i fwydo eu cyrff a bara nefol i gynnal eu heneidiau.

Trwy rym dy Ysbryd, tyrd â'r rhyfel creulon hwn i ben ar frys gyda rhyddhad i'r holl garcharorion, gofal meddygol i'r clwyfedig, cysur i'r rhai sydd wedi colli anwyliaid. Agor lwybr i greu heddwch cyfiawn a pharhaol yma yn y wlad lle bu dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist ei hun, yn gweini yn ystod ei fywyd daearol.

Yr hwn sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Sanctaidd, un Duw, yn awr a hyd byth.

Amen

*Y Parchedicaf Ddr. Hosam E. Naoum, Archesgob Anglicanaidd yn Jerwsalem, Awst 2025*

# Credo Nicea – Sesiwn Pedwar – Ysbrydoliaeth yr Ysbryd Glân (rhan 2)

**Diwygiwyd geiriad y Credo a gytunwyd yn Nicea (325 OC) yng Nghyngor Caergystennin yn 381 OC. Yn gyffredinol, y fersiwn hwn, Credo Nicea-Caergystennin, sydd wedi ei etifeddu gennym ar draws y canrifoedd, yw'r un a ddefnyddir gan y traddodiadau Cristnogol ar draws y byd ac sy'n sail i'r myfyrdodau sy'n dilyn.**

## Y Triongl Gobaith – Virginia, UDA

Nid yw'r gwaith hwn yn digwydd heb gryn chwys a dagrau; yn aml cawn ein hymestyn mewn ffyrdd anghysurus na fyddem yn eu dewis. Ond fel popeth sy'n werth ei gael, rhaid i ni weithio i'w wneud yn realiti. Yn ein pererindodau ym mhob un o'n hesgobaethau, gwelwn dystiolaeth o waddol sy'n deillio o'r hyn a wnaed yn y gorffennol. Ni allwn ddymuno nad yw yno, ac ni allwn ychwaith ei anwybyddu. Ni allwn eistedd yn ôl yn dawel gan dderbyn manteision y gweithredoedd creulon hyn, heb gydnabod ein dyled, yn aml i fatriarchiaid a phatriarchiaid na wyddom eu henwau. Sail gweinidogaeth y cymod yw cymryd ein hamser a gwneud ymdrech i oedi, cofio a chymodi, a chamu ymlaen tuag at weledigaeth o'r hyn allai ddod i fodolaeth. Wrth i ni ddilyn anogaeth yr Ysbryd Glân yn ein bywyd, gallwn 'addoli a gogoneddu' fel yr ydym yn addo yn y Credo.

Yn ystod y tymor hwn, ble allwch chi fod ynglŷn â 'gweinidogaeth y cymod'? Ble fedrwch chi, gyda chwys a dagrau, helpu i gyflawni breuddwyd Duw ar gyfer y byd clwyfedig a phechadurus hwn? Er bod y Triongl Gobaith yn ymestyn ar draws cyfandiroedd, efallai mai gyda chymydog neu aelod o'ch teulu fydd eich gweinidogaeth chi'n cychwyn. Dechreuwch lle rydych, gadewch i'r Ysbryd Glân eich arwain at gyfanrwydd ac iachâd, a hynny yn eich cyd-destun chi. Buom ynglŷn â'r gwaith hwn ers dyddiau Crist, a fesul bricsen, rydym yn ceisio adeiladu teml sy'n deilwng o'n Harglwydd. Canolbwyntiwch ar y dasg wrth law, a thrwy drawsffurfio'ch rhan chi o'r byd, cewch chi eich trawsffurfio gan yr Ysbryd Glân, yr ydym yn ei anrhydeddu heddiw.

**Cwestiynau i fyfyrio arnynt**

Sut olwg sydd ar gymod go iawn a pha ran, dybiwch chi, mae'r Ysbryd Glân yn ei chwarae mewn cymod?

Ble mae'r Ysbryd Glân yn eich procio i weithio tuag at iachâd a chyfanrwydd? Meddyliwch am eich bywyd personol, eich eglwys a'ch cymuned.

Gyda phwy y mae angen i chi weithio ar gymod? Sut y gallech dynnu ar rodd yr Ysbryd Glân i'ch galluogi i gymryd y cam cyntaf?

**Gweddi**

1 Defnyddiwch y pwyntiau gweddi hyn fel arweiniad i'ch adeg o weddi:

2 Gweddïwch dros waith y Triongl Gobaith a'n hesgobaethau, os gwelwch yn dda.

3 Gweddïwch am anogaeth yr Ysbryd Glân wrth i chi geisio dwyn cymod i rannau o'r byd sydd wedi eu rhwygo'n enbyd.

# Beth am gynnal Gwasanaeth Sul Diogelu eleni?

Mae Sul Diogelu ar 16 TACHWEDD 2025. Neilltuwch eich gwasanaeth i gyd neu ran ohono i ddiogelu, neu dewiswch dyddiad arall!

Mae **SUL DIOGELU** yn ffordd wych o ddangos bod diogelu yn rhan o'n ffydd mewn Duw cyfiawn a chariadus, codi ymwybyddiaeth o ddiogelu a galluogi eglwysi i rannu rhywfaint o'r gwaith da y maent yn ei wneud i ofalu am bobl a'u hamddiffyn.

Hon fydd y bedwaredd flwyddyn i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru, Eglwys Bresbyteraidd Cymru a'r Panel Diogelu Cydenwadol annog eglwysi i gynnwys Sul Diogelu yn eu calendr eglwysig blynyddol.

Mae Sul Diogelu yn fenter a gychwynwyd gan Thirtyone:eight, elusen ddiogelu Gristnogol sy'n gweithio ac yn ysbrydoli eraill i 'siarad ar ran y bobl sydd heb lais', fel y dywedir yn Llyfr y Diarhebion 31:8, ffynhonnell eu henw.

Yn 2022 a 2023 cynhyrchodd y Panel wasanaeth dwyieithog a ffilm pwrpasol ei hun. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym yn falch iawn bod Thirtyone:eight wedi cynhyrchu mwy o adnoddau Cymraeg.

Y llynedd ledled y Deyrnas Unedig, cymerodd dros bum mil o eglwysi ran yn y Sul Diogelu. Eleni, gyda'ch help chi, gallwn helpu i godi ymwybyddiaeth a gwneud ein heglwysi yn lleoedd mwy diogel i bawb.

I gymryd rhan, gallwch gofrestru am ddim – https://safeguardingsunday.org. Byddwch yn derbyn canllaw ac adnoddau ar-lein i'ch helpu chi cynnal gwasanaeth cyfan, neu ran o wasanaeth, yn hawdd. Mae'n cynnwys gweddïau, nodiadau pregeth, syniadau am weithgareddau, adnoddau plant a mwy.

**Am ragor o wybodaeth?** Darllenwch y cwestiynau cyffredin (Saesneg) yma

**Neu ewch i wefan y Panel Diogelu Cydenwadol:** https://panel.cymru/cy/sul-diogelu



# Y Parchedig Ydfis Menna Brown 1940-2025

*2 Timotheus Pennod 1 adn 5 a 6*

Dengys y goeden deulu fod ein gwreiddiau yn ddwfn yn naear godre Ceredigion a glannau'r afon Ceri yn Rhydlewis ac arfordir y sir yn Llangrannog. Roedd tad-cu Menna sef Benjamin Jones, a fy nhad-cu innau, Dafydd Rees Jones, yn frodyr. Capel Hawen oedd addoldy'r teulu ers sawl cenhedlaeth, a'n hen fam-gu yn ôl yr hanes wrth ei bodd yn trafod materion ffydd gyda neb llai nag E. Keri Evans.

Symudodd Ben o Benwern i Bant, Llangrannog a phriodi Elisabeth. Ganwyd iddynt ddwy ferch a thri bachgen. Daeth John Hawen Jones yn ysgrifennydd Capel Newydd, Casnewydd; George yn ysgrifennydd Wern, Aberafan, a James yn ddiacon yn y Boro. Tipyn o record! Arhosodd y ddwy ferch Elsie a Sarah Ellen yn yr hen ardal a byw yn agos i'w gilydd yn Pant Delfryn ac Argoed a'r diweddar Bethan Roberts cyfnither Menna. Priododd Elsie a David John Evans o Geinewydd. Yn drychinebus bu farw David John ar y môr yn Nairobi a Menna ond yn bedair oed. Ar y garreg fedd yng Nghapel y Wig mae'r cwpled o englyn gan T. Llew Jones.

Yn hir rhyngom – bu'r angau uwch y don
Yn un eich dau.

### Cenhades

Crannog oedd addoldy'r teulu y bu Ben Jones â rhan yn ei adeiladu ac yno y bedyddiwyd Menna a'i derbyn yn aelod. Ydfis oedd enw cyntaf Menna a roddwyd iddi gan Isfoel un o fechgyn y Cilie, hithau wedi'i geni ym mis Medi. Addysgwyd Menna yn ysgol gynradd Pontgarreg ac ysgol ramadeg Aberteifi a thua diwedd cyfnod ysgol ymdeimlodd â'r alwad i fynd yn genhades i Fadagascar ond oblegid i'w mam golli ei gŵr a bod heintiau yn y wlad, ni chafodd fynd.

### Cyfarfod cyntaf

Aeth i Gaerdydd i ddilyn hyfforddiant i fod yn weithiwr cymdeithasol a chyfarfu â Robin mewn modd diddorol. Yn ystod *Rag Week* roedd Robin yn eistedd yn Undeb y Myfyrwyr pan glywodd neges ar y tanoi yn gofyn am wasanaeth rhywun oedd â char, roedd ganddo Morris 8 Series E. Aeth i'r *lodge* a gweld merch oedd â blawd drosti a daflwyd gan fyfyrwyr coleg celf Casnewydd. Meddai Robin, 'Ar ôl mynd 'nôl i'r *digs* aethom i'r sinema'r noson honno, ac mae'r gweddill yn hanes!' Priododd y ddau yng nghapel Crannog â'r Parchgn Eynon Thomas a Douglas Bale yn gwasanaethu a chofiaf y *tops* a'r *tails*. Tipyn o steil! Dechreusant eu bywyd priodasol yng Nghaerdydd ac yno y ganed Seimon.



### I'r gorllewin

Cymaint oedd y dynfa i fynd 'nôl i'r gorllewin, fe symudont i fyw gyda'i mam yn Argoed, a bu Robin yn gweithio i gyngor Sir Aberteifi ac wedyn Dyfed, ac yma ganed Anwen. Perthynai Menna i wahanol gymdeithasau megis Côr Penparc a Merched y Wawr. Bu'r ddau'n stiwardio am flynyddoedd yn y pafiliwn adeg y Steddfod Genedlaethol. Cafodd Menna swydd fel Swyddog Datblygu Mudiad Ysgolion Meithrin a sefydlu cylchoedd ar draws y sir a chael llwyddiant. Capel Crannog oedd canolbwynt ei bywyd a thrist iddi oedd datgorffori'r achos ond buont yr un mor weithgar yn y Wig.

### Galwad

Ymdeimlodd â'r alwad i fynd i bregethu a byddai'n gyson yn gwasanaethu eglwysi'r cylch a phenderfynodd gyflwyno'i hunan i'r weinidogaeth a chael cefnogaeth Capel Crannog a Chyfundeb Ceredigion.

Derbyniwyd hi i Goleg yr Annibynwyr yn Aberystwyth a gwerthfawrogai'r hyfforddiant gan y Prifathro E. Stanley John a'r Athro Eifion Powell. Yn rhan o'r hyfforddiant treuliodd fisoedd un haf yn Minny St, Caerdydd gyda'r Parchg Ieuan Davies yn fentor da iddi. Derbyniodd alwad i fod yn weinidog gan eglwysi Tabernacl, Abergwaun; Rhosycaerau ac Ebeneser Wdig ac fel teulu roeddem yn llawen drosti.

Treuliodd 13 mlynedd yno gan weithio'n ddiwyd fel gweinidog a chael cefnogaeth lwyr Robin. Bu'n weithgar gydag Eglwysi Rhyddion Abergwaun ac yng Nghyfundeb Penfro lle bu'n gadeirydd ac ysgrifennydd cenhadol a mynychodd Gyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yn gyson. Byddwn wrth fy modd yn gweld Robin a Menna, Glan a Bethan a chael cyfle i ddwyn atgofion a dal i fyny gyda hynt a helynt y teulu. Perthynai i Gymdeithas Gweinidogion Bro'r Preseli sydd yn dal i gyfarfod yng Nghaffi Beca. Gweithredodd hefyd fel cyd-ysgrifennydd Ysgol Haf y Gweinidogion a gyfarfu yn Neuadd Pantycelyn.

'Rôl tymor da o wasanaeth penderfynodd y ddau ymddeol yn ôl i Gaerdydd ac yn agos at Seimon ac Anwen a buont yn eithriadol ofalus ohonynt ar hyd y blynyddoedd.

### Y Ffydd Ddiffuant

Darllenais yn destun i'r deyrnged hon neges Paul i'w fab yn y ffydd a'i annog i gadw ynghyn y ffydd ddiffuant a drosglwyddwyd iddo gan ei fam-gu a'i fam, Lois ac Eunice. Yn sicr roedd Menna wedi derbyn y ffydd ddiffuant oedd yn eiddo i'w hynafiaid yn Hawen, Capel Crannog a'r Wig a'r ffydd a'i cynhaliodd gydol ei bywyd ac yn arbennig yn ystod cyfnod hir ei thostrwydd. Credai yn angerddol yr hyn a ddywed Paul wrth Timotheus, 'oherwydd y mae ef wedi dirymu marwolaeth a dod a bywyd ac anfarwoldeb i'r golau trwy'r Efengyl.'

Er cof annwyl a chariadus am Menna. Er cysur i Robin, Seimon ac Anwen, Caroline, Daniel, Tom, Ceris a Rhys. Er gogoniant i Dduw.

**Gareth Morgan Jones**


**Eglwysi Annibynnol Bethesda, Tymbl Capel Seion, Drefach a Nazareth, Pontiets**

Cynhelir cyfarfod sefydlu

**Parchg Guto Llywelyn**

**yn weinidog i Iesu Grist**
ar yr eglwysi uchod

ar ddydd Sadwrn, 13 Medi, 2025
am 1.30yp

**yng nghapel Capel Seion**
**(SA14 7BN)**

Estynnir croeso cynnes i bawb
Darperir lluniaeth

Ar ran yr eglwysi:

Elen Davies, Mwynfan, Heol Meri, Drefach. (01269) 845 677


Ann Thomas, Y Berllan, Drefach (01269) 841 362

Delyth Bowen, 7 Heol Nazareth, Pontiets. (01269) 860 430

# Golygyddol

## Megis Dŵr

Tros yr haf fe gefais gyfle i ddarllen nifer o gyfrolau amrywiol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Roedd rhai ohonynt yn ysgafn ac eraill yn ffeithiol. Dyma roi syniad i chi o rai o'r llyfrau ddarllenais. *The Church Jesus Prayed For* gan Michael Cassidy; *Billy Summer* gan Stephen King; *Gras, Gobaith a Gogoniant* gan D. Densil Morgan; *Rather be the Devil* gan Ian Rankin; *Anfarwol* gan Peredur Glyn a *Y Tŵr* gan Rebecca Thomas. Oherwydd fy niddordeb mewn hanes a chenhadaeth gyfoes, y gyfrol wnaeth fwyaf o argraff arnaf oedd *Mission is The Shape of Water – Learning from the past to inform our role in the world today* gan Michael Frost. Cefais fwynhad, addysg ac ysbrydoliaeth o ddarllen y llyfr. Gadawa i mi rannu gyda ti grynodeb byr o'r cynnwys. Y syniad sylfaenol yw bod rhaid i Gristnogion addasu eu tystiolaeth i'r diwylliant y maent yn rhan ohono. Nid yw arddull cenhadu un cyfnod o reidrwydd yn gweithio mewn cyfnod arall.




### Penodau

Ynddo mae deg pennod sy'n cyflwyno deg siâp ar y genhadaeth Gristnogol e.e., God Slaying, Wordsmithing, Unearthing. Mae'r penodau cyntaf yn olrhain natur cenhadaeth Gristnogol trwy'r canrifoedd, o ddyddiau'r Apostolion a'r eglwys fore, y seintiau Celtaidd hyd yr ugeinfed ganrif. Mae'n enghreifftio nid yn unig o gyd-destun Protestannaidd ond o bob traddodiad Cristnogol. Ym mhob pennod mae'n dadansoddi'r dulliau a ddefnyddiwyd i gyflwyno'r Newyddion Da ac yna fe geisia ddangos eu perthnasedd i'n cyfnod ni gan eu cymhwyso i'r presennol. Mae cymaint o gyfoeth yn y llyfr hwn fel y bydd rhaid ei ddarllen eto.

### Trawiadol

Y mae tri phwyslais wedi gwneud argraff arnaf wrth ei ddarllen, sef:

1. Y mae'n mynd y tu hwnt i ffiniau Cristnogaeth Saesneg ei iaith ac Ewropeaidd ei diwylliant gan bwysleisio'r angen i genhadaeth fod yn frodorol gan adlewyrchu'r cyd-destun cynhenid.

   *As the head of the Church Missionary Society, Henry Venn developed a new theory – namely that the establishment of a genuinely indigenous church was a key goal of Christian missions. Instead of plant ing Western churches in Africa or India or Chinese soil, CMS missionaries were told their goal was to foster localized forms of Christianity.* (Tud. 124 – 7)

2. Y mae'n condemnio cenhadaeth Gristnogol imperialaidd sydd wedi niweidio cenhedloedd ar hyd a lled y byd. Yn wir, fe â ymhellach gan ddweud y gall rhai mynegiannau Cristnogol fod yn hiliol.

   *Some (Christian missionaries) came to trust in the "manifest destiny" of Western nations, adopting the conviction that God, in his providence, had chosen the Western nations, because of their unique qualities, to be the standard bearers of his cause even to the uttermost parts of the earth.* (Tud. 94)

3. Y mae'n ein hannog fel Cristnogion i gyd-destunoli ein tystiolaeth yn y fan lle rydym gan ailgloriannu ein diwylliant. Mae ei sylwadau yn yr wythfed bennod, sef, Contextualizing, yn hynod o ddiddorol a perthnasol i Gymru. Beth yw anghenion pobl a beth sy'n eu gwneud yn ddedwydd? Ydy pobl yn deall ein ffordd o siarad ac ymddwyn? A ydym ni wedi dadansoddi diwylliant siaradwyr Cymraeg heddiw? Beth sydd yn bwysig iddynt? Beth maent yn ei feddwl am Dduw? Beth sydd yn eu gwneud yn Gymry? Sut allwn ni eu gwasanaethu a chyfoethogi eu bywydau? Mae'n pwysleisio'r angen i Gristnogion ail asesu eu dulliau o rannu'r newyddion da gan ystyried y cyd-destun diwylliannol cyfoes er mwyn gwneud y gwaith yn effeithiol. Dyma pam fod cenhadu megis dŵr. Wrth gwrs, nid yw'r ffeithiau sylfaenol am Iesu fel Arglwydd a Gwaredwr yn newid, ond rhaid i'r dulliau o gyflwyno newid ac addasu.

Hoffwn dy annog, os oes gennyt ddiddordeb mewn cenhadaeth ac ymestyn allan gyda'r newyddion da am Iesu i ddarllen y llyfr hwn. Wyddost ti beth? Yr hyn fyddai'n wych fyddai cael llyfr tebyg i hwn mewn cyd-destun Cymraeg a Chymreig. Mae'n wirioneddol drist nad oes rhagor o ysgrifennu sylweddol yn digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg ar faterion Cristnogol, diwinyddol ac athrawiaethol. Oherwydd nid yw yn ddigon i dderbyn dim ond sylwadau a chysyniadau gan Gristnogion o'r tu allan i'n diwylliant ni. Onid yw'r Ysbryd Glân yn gweithio ymhlith Cristnogion Cymraeg hefyd gan roi arweiniad iddynt gymhwyso yr Efengyl i'n pobl mewn ffordd benodol ac unigryw.

**Alun Tudur**



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Bore coffi yn Saron



Ar fore braf yn Saron, daeth ein capel yn fyw gyda sŵn sgwrsio, chwerthin, a'r arogl melys o deisennau. Ond nid am y coffi a'r pobi yn unig yr oeddem wedi ymgynnull oherwydd roeddem yno i godi arian ar gyfer achos sydd yn agos at ein calonnau sef gwersyll Starfish Kids Camp. Mae'r elusen hon yn cynnig wythnos o gariad, gofal a gobaith i blant sy'n wynebu amgylchiadau anodd.

Mewn dim ond dwy awr, llwyddwyd i godi £800digon i anfon dau o blant bregus i wersyll. Mae hynny'n dyst i'r hyn sy'n bosib pan fydd cymuned Gristnogol yn uno mewn cariad ac ymrwymiad.

### Gweithredu'n lleol

Roedd yn hyfryd croesawu aelodau o'r gymuned leol, gan gynnwys ein cynghorydd sir, a ddaeth i ymuno â ni dros ddisgled a theisen. Daeth ffrindiau o bell ac agos, gan lenwi'r festri â charedigrwydd a haelioni.

Mae'n hawdd meddwl mai elusennau mawr yn unig sy'n gwneud gwahaniaeth, ond mae digwyddiadau fel hyn yn dangos bod cefnogi elusennau lleol ar gyfer pobl leol – yn enwedig plant bregus – yn hanfodol. Mae'r plant hyn yn byw yn ein cymunedau ni, ac mae ein cefnogaeth yn gallu bod yn drobwynt yn eu bywydau.



### Diolch i'r cyfundeb

Rydym hefyd yn hynod ddiolchgar i'n cyfundeb am eu cefnogaeth i'n hymdrechion. Mae'n galonogol gwybod bod ein teulu eglwysig ehangach yn sefyll gyda ni, yn ein hannog ac yn ein grymuso i wasanaethu'n lleol.



### Gobaith a ddaw o garedigrwydd

Mae Starfish Kids Camp yn fwy na gwersyll mae'n fan lle gall plant deimlo'n ddiogel, cael eu gwerthfawrogi, a chael cipolwg ar gariad Duw trwy weithredoedd syml ond pwerus o garedigrwydd.

Gweddïwn y bydd y plant sy'n mynychu'r gwersyll eleni yn profi llawenydd, adferiad, a gobaith. Ac i ni fel eglwys, boed i hyn yn ein hatgoffa o'n galwad i fod yn oleuni yn ein cymuned – nid trwy eiriau yn unig, ond trwy weithredoedd cariadus.

**Rhys Locke**




Cyfundeb Gorllewin Morgannwg

## Sul y Cyfundeb

*yng nghwmni*



**Gwenan Gibbard**
**Telynores a chantores**

**Capel yr Alltwen**

**Sul, 28 Medi, 2025 am 10.30**

***Croeso cynnes i bawb***

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*